



# Adroddiad ar adolygiad ymarfer: Victoria Climbié

Bwriad yr astudiaethau achos hyn yw tynnu sylw at broblemau'n ymwneud â gweithredu ymarferol; gan ddwyn ynghyd y ffactorau allweddol, yn enwedig mewn perthynas â gwaith aml-asiantaethol. Byddant yn helpu i roi ffactorau risg yn eu cyd-destun a gofyn cwestiynau ynghylch dulliau atal mewn sefyllfaedd lle mae camdriniaeth, esgeulustod a niwed yn digwydd. Maent wedi'u crynhoi i helpu gyda'r broses hon, ond mae mwy o wybodaeth ar gael yn yr adroddiadau ar yr adolygiadau.

## Cyd-destun a chefnidir yr adolygiad

Bu farw Victoria Climbié yn yr uned gofal dwys yn Ysbyty St Mary yn Paddington ar 25 Chwefror 2000, yn wyth a thri mis oed. Achoswyd ei marwolaeth gan anafiadau lluosog yn sgil misoedd o gael ei thrin yn wael a'i cham-drin gan ei hen fodryb, Marie-Therese Kouao, a phartner ei hen fodryb, Carl John Manning.

Ar ôl eu dedfrydu'n euog am ei llofruddio, penodwyd yr Arglwydd Laming ym mis Ebrill 2001 i gadeirio ymchwiliad statudol annibynnol i'r amgylchiadau a arweiniodd at farwolaeth Victoria Climbié, ac i wneud argymhellion "ynghylch sut y gellir osgoi digwyddiad o'r fath, cyn belled â phosibl, yn y dyfodol." Cyhoeddwyd adroddiad yr ymchwiliad ar 28 Ionawr 2003.

## Amgylchiadau'r unigolyn a'r heriau a oedd yn ei hwynebu

Daeth Victoria i'r DU o Ffrainc heb air o Saesneg gyda'i hen fodryb Marie-Therese Kouao ym mis Ebrill 1999. Yn y lle cyntaf buont yn aros mewn hostel, cyn iddynt symud i ogledd Llundain ym mis Gorffennaf i gartref Carl Manning ar ôl i'w hen fodryb ddechrau perthynas ag ef.

## Beth ddigwyddodd?

**14 Gorffennaf 1999:** Aeth Victoria i Ysbyty Central Middlesex am y tro cyntaf ar ôl i ferch ei gwarchodwr amau bod gan y ferch anafiadau nad oeddynt yn rhai damweiniol. Mae'r meddyg yn derbyn stori Kouao bod Victoria wedi anafu ei hun drwy grafu briwiau clefyd crafu. Yn ystod y cyfnod hwn, mae meddygon yn hysbysu awdurdodau amddiffyn plant fel mesur rhagofalus.

Neilltuwyd y gweithiwr cymdeithasol o Haringey Lisa Arthurworrey a PC Karen Jones i'r achos. Yn ddiweddarach maent yn canslo ymweliad cartref a drefnwyd ar gyfer 4 Awst ar ôl clywed am y clefyd crafu.

**24 Gorffennaf 1999:** Mae Victoria yn cael ei chymryd i adran ddamweiniau Ysbyty North Middlesex gyda sgaldiadau i'w phen a'i hwynebu. Mae meddygon yn amau eu bod yn anafiadau bwriadol ar unwaith. Mae Kouao yn dweud wrth Lisa Arthurworrey a PC Jones ei bod wedi arllwys dŵr poeth dros Victoria i geisio ei hatal rhag crafu ei phen. Mae'n dweud mai Victoria achosodd yr anafiadau eraill gydag offer cegin.

**6 Awst 1999:** Mae Victoria yn cael gadael yr ysbyty ac yn cael ei chasglu gan Kouao ar ôl i'r awdurdodau amddiffyn plant dderbyn ei hesboniad am yr anafiadau.

**1 Tachwedd 1999:** Mae Kouao yn dweud wrth weithwyr cymdeithasol bod Carl Manning wedi ymosod yn rhywiol ar Victoria. Mae'n tynnu'r cyhuddiad yn ôl drannoeth. Gofynnir i PC Jones ymchwilio pam, ond nid yw'n cymryd unrhyw gamau pellach pan nad yw Kouao yn ateb ei llythyr.



**24 Chwefror 2000:** Mae Victoria'n cael ei rhuthro i Ysbyty North Middlesex yn dioddef o gyfuniad o ddiffyg maeth a hypothermia. Yn ddiweddarach, mae meddygon yn ei throsglwyddo i ward gofal dwys yn Ysbyty St Mary yng ngorllewin Llundain. Mae Victoria'n marw drannoeth.

### Pam y digwyddodd?

Daeth Dr Nathaniel Carey, patholegydd y Swyddfa Gartref a archwiliodd ei chorff, ar draws 128 o anafiadau a chreithiau gwahanol, llawer ohonynt yn llosgiadau sigarét, a'u disgrifio fel "yr achos gwaethaf o gam-drin plant i mi ei weld erioed".

Pan welodd y paediatregydd ymgynghorol Dr Mary Schwartz Victoria yn Ysbyty Central Middlesex, penderfynodd mai'r cyflwr croen clefyd crafu oedd yn gyfrifol am ei chreithiau. Anfonwyd Victoria adref at ei chamdrinwyr.

Dywedodd Dr Schwartz wrth ymchwiliad Laming ei bod wedi cymryd y byddai'r gwasanaethau cymdeithasol yn ymchwilio ymhellach. Bythefnos yn ddiweddarach, roedd Victoria yn ôl yn yr ysbyty – y tro hwn yn Ysbyty North Middlesex. Credai'r meddyg ymgynghorol Dr Mary Rossiter bod Victoria yn cael ei cham-drin ond drysodd gydweithwyr drwy ysgrifennu "able to discharge" ar ei nodiadau. Anfonwyd Victoria gartref eto at ei chamdrinwyr.

Clywodd yr ymchwiliad sut y methodd PC Karen Jones ag archwilio cartref Victoria gan ei bod yn ofn dal clefyd croen oddi ar y dodrefn. Meddai: "Efallai nad yw'n gwneud synnwyr, ond dydw i'n deall dim am glefyd crafu."

Lisa Arthurworrey oedd gweithiwr cymdeithasol Victoria ac un o nifer o bobl o Gyngor Haringey a gafodd eu beio am ei gadael i lawr. Teimlai Ms Arthurworrey fel ei bod wedi cymryd y bai dros bawb. Yn yr ymchwiliad, dywedodd fod amddiffyn plant yn Haringey yn gwbl ddi-drefn, gyda gwrthdaro rhwng gweithwyr. Ymosododd ar nifer o gydweithwyr a disgrifiodd sesiynau goruchwyllo gyda'i rheolwr, Carole Baptiste. Dywedodd: "Defnyddiodd Ms Baptiste y rhan fwyaf o'r amser i siarad am ei phrofiadau ei hun fel menyw ddu a'i pherthynas gyda Duw."

Dywedodd Esther Acka, perthynas bell i hen fodryb Victoria, Marie-Therese, wrth yr ymchwiliad ei bod wedi gwneud dwy alwad ddiennw i gyngor Brent i rannu ei phryderon am ddiogelwch Victoria. Ni wnaed dim effeithiol.

Priscilla Cameron oedd gwarchodwr Victoria. Priscilla a'i merch, Avril, a aeth â Victoria i Ysbyty Central Middlesex – ond diagnosiwyd ei briwiau fel clefyd crafu.

"Ymddengys fel na roddwyd y ddisgyblaeth sylfaenol o werthuso meddygol, sef ystyried hanes, archwilio, dod i ddiagnosis gwahaniaethol, a monitro'r canlyniad, ar waith yn achos Victoria. Rwy'n derbyn tystiolaeth Dr Peter Lachman, cyfarwyddwr clinigol Women and Children Services Directorate, North West London Hospitals NHS Trust, bod meddygon a nyrsys paediatrig yn derbyn llawer o hyfforddiant i helpu plant sâl i wella.

"Fodd bynnag, fel y dywedodd, 'mae cam-drin plant yn un o feysydd mwyaf cymhleth paediatreg ac iechyd plant'. Ond er hynny, roeddwn i'n ei chael yn anodd deall pam na chafodd ymarfer meddygol sefydledig, a fyddai wedi helpu i egluro'r cymhlethdodau yn achos Victoria heb os, wedi'u dilyn ar y wardiau paediatreg yn Ysbyty Central Middlesex ac Ysbyty North Middlesex. Ar ôl ystyried yr ymateb i Victoria gan bob asiantaeth, mae'n rhaid i mi ddod i'r casgliad bod y methiant llwyr i'w hamddiffyn yn deillio o ddiffygion sefydliadol eang. Fodd bynnag, gellir dysgu o gymharu'r ymateb annigonol i ddiogelu Victoria gyda gwaith y gwasanaeth iechyd wrth geisio achub ei bywyd yn y pen draw, a phroffesiynoldeb ymchwiliad yr heddlu ar ôl ei marwolaeth a arweiniodd ar erlyn Kouao a Manning. Ond yn anffodus roedd hynny'n rhy hwyr i Victoria." Adroddiad Laming, 2003.



## Argymhellion yr adroddiad

Prif argymhellion yr adroddiad yw:

- asiantaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Plant a Theuluoedd i sicrhau bod yr heddlu, gwasanaethau iechyd a thai yn gallu cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol ac effeithlon
- gallai prif weithredwr yr asiantaeth gyflawni swyddogaethau comisiynydd plant ar gyfer Lloegr a dylai'r asiantaeth adrodd i bwyllgor gweinidogol ar gyfer gwasanaethau plant
- dylai'r asiantaeth graffu ar gyfreithiau newydd, sicrhau bod polisi'n cael ei roi ar waith a gallai gynnal adolygiadau o achosion difrifol
- dylai fod gan bob awdurdod lleol bwyllgor ar gyfer plant a theuluoedd gydag aelodau o awdurdod yr heddlu, y cyngor ac ymddiriedolaethau gwasanaeth iechyd
- byddai'r pwyllgor yn goruchwyllo gwaith bwrdd rheoli ar gyfer gwasanaethau i blant a theuluoedd, a fyddai'n cynnwys uwch aelodau'r heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau iechyd, addysg, tai a phrawf
- mae'n rhaid i'r bwrdd rheoli adrodd i'r pwyllgor ac yn ei dro dylai'r pwyllgor adrodd i'r asiantaeth genedlaethol
- dylai'r Llywodraeth ystyried sefydlu cronfa ddata plant genedlaethol i gofnodi cyswllt rhwng plentyn dan 16 oed ac aelod o wasanaethau allweddol
- mae angen i'r llywodraeth gyhoeddi canllawiau ar rannu gwybodaeth mewn perthynas â'r Ddeddf Diogelu Data
- dogfen unigol yn amlinellu iaith gyffredin ar gyfer pob asiantaeth yn rhoi arweiniad cam wrth gam ar reoli achos a disodli'r gofrestr amddiffyn plant bresennol
- mae angen i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n briodol ac ni ddylid cau unrhyw achos sy'n ymwneud â phlentyn agored i niwed tan gallu gweld a siarad gyda'r plentyn hwnnw a'i ofalwr
- dylai uwch reolwr arolygu ffeiliau achos ar hap a dylai gweithwyr cymdeithasol wirio gwybodaeth gan bob asiantaeth amddiffyn plant cyn ymweld â'r cartref
- mae'n rhaid mynd i'r afael â honiadau ar unwaith ac mae'n rhaid i wasanaethau arbenigol fod ar gael 24 awr y dydd
- dylai meddygon sy'n amau bod plentyn yn cael ei niweidio ystyried cael gwybodaeth am y niwed gan y plentyn yn uniongyrchol, hyd yn oed heb gydsyniad y gofalwr
- mae'n rhaid i'r heddlu sicrhau bod troseddau yn erbyn plentyn yn cael cymaint o sylw â'r rhai yn erbyn oedolion a dylid integreiddio timau amddiffyn plant yn llawn yn yr heddlu
- dylai prif gwnstablaiad adolygu unedau amddiffyn plant yr heddlu
- dylai prif weithredwyr gwasanaethau iechyd lleol ac awdurdodau lleol ystyried eu dyletswyddau tuag at blant agored i niwed
- dylid cyflwyno graddau gwaith cymdeithasol newydd
- canllawiau mwy cryno a chlr ar gyfer miliwn o staff proffesiynol sy'n ymdrin ag amddiffyn plant
- terfynau amser tri mis i'r heddlu, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol wella arferion sylfaenol
- Ymddiriedolaethau Plant i ddwyn gwasanaethau lleol ar gyfer ieuencid ynghyd mewn un sefydliad unigol.

**Dyfyniad** Laming, L (2003) *The Victoria Climbié inquiry: report of an inquiry gan yr Arglwydd Laming*. Norwich: Y Llyfrfa (TSO).

**Dyfyniad** Tŷ'r Cyffredin. Y Pwyllgor Iechyd (2003) *The Victoria Climbié Inquiry report. Sixth report of session 2002-03*. Llundain: Y Llyfrfa (TSO).